



ADFYWIO

Adfywio Iaith a Thrawsnewid
Cymdeithasol

Hybu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn oes fyd-eang

Prif ganfyddiadau ac
argymhellion allweddol o
rwydwaith ymchwil Adfywio

Paratowyd gan Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles
a'r Athro Wilson McLeod

Gorffennaf 2019



Gwefan: revitalise.aber.ac.uk/cy

E-bost: revitalise@aber.ac.uk

Twitter: [@_revitalise](https://twitter.com/_revitalise)

Cynnwys

Crynodeb gweithredol: prif ganfyddiadau ac argymhellion	2
1. Cyflwyniad	4
2. Adfywio iaith fel gweithgarwch aml-lefel	5
3. Cydbwyso swyddogaeth sefydliadau llywodraethol a mudiadau cymdeithas sifil	6
4. Symudedd, tiriogaeth a defnydd iaith bob dydd	7
5. Trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau ac esblygiad yr uned deuluol	8
6. Mudo rhyngwladol, amlddiwylliannedd ac adfywio iaith	9
7. Globaleiddio a'r cysylltiadau rhwng iaith a modelau datblygu economaidd cyfoes	10

Dylid cyfeirnod i'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

Lewis, Huw, Royles, Elin a McLeod, Wilson,
Hybu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn oes fyd-eang (Gorffennaf 2019).

Crynodeb gweithredol: prif ganfyddiadau ac argymhellion allweddol

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac argymhellion sy'n codi o brosiect **Adfywio**, rhwydwaith ymchwil a sefydlwyd yn 2017 gyda'r nod o astudio goblygiadau newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol cyfoes i'n dealltwriaeth o'r modd y dylid dylunio a gweithredu ymdrechion i adfywio iaith.

Adfywio iaith fel gweithgarwch aml-lefel (t 5). Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch diweddar ledled Gorllewin Ewrop i gefnogi ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol wedi'i harwain gan lywodraethau a sefydliadau ar lefel ranbarthol. Ac eto, anaml y mae'r mentrau hyn wedi'u llunio a'u datblygu mewn gwagle: maent hefyd wedi'u dylanwadu gan benderfyniadau a phrosesau ar y lefelau gwladwriaethol a chyfandirol, sy'n golygu y dylid gweld adfywio iaith fel gweithgarwch sy'n gynyddol aml-lefel.

- **Argymhelliad 1:** Mae angen rhagor o gydnabyddiaeth o'r symudiad tuag at batrymau llywodraethu aml-lefel wrth geisio deall y ddynameg wleidyddol sy'n dylanwadu ar ddatblygu ymyraethau polisi sy'n ymwneud â ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.
- **Argymhelliad 2:** Gall datblygu dealltwriaeth gadarnach o'r ffactorau aml-lefel sy'n dylanwadu ar ddatblygiad polisi o ran ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol arwain at well dealltwriaeth o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd gwleidyddol sy'n wynebu'r rheini sy'n gweithio yn y maes, naill ai fel swyddogion polisi neu fel ymgyrchwyr cymdeithas sifil. Gall hefyd helpu i hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd o ran dysgu polisi a throsglwyddo polisi.

Cydbwyso swyddogaeth sefydliadau'r llywodraeth a mudiadau cymdeithas sifil (t. 6). Yn ystod y degawdau diwethaf, mae llywodraethau – llywodraethau ranbarthol fel arfer – wedi bod yn gynyddol ddylanwadol mewn sawl ymdrech i adfywio ieithoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, wrth i sefydliadau llywodraethol ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros weithgaredd adfywio iaith gellir effeithio ar waith hanfodol mudiadau cymdeithas sifil, ac mae goblygiadau i annibyniaeth y mudiadau hynny a'u potensial i arloesi.

- **Argymhelliad 3:** Dylai sefydliadau llywodraethol gydnabod y ffaith bod ymdrechion adfywio iaith effeithiol yn dibynnu ar fwy na gweithredu llywodraethol swyddogol. Mae ymwneud poblogaidd eang a chyfraniad mudiadau

cymdeithas sifil hefyd yn elfennau hanfodol. O ganlyniad, dylai'r cydbwysedd rhwng swyddogaeth amryfal sefydliadau llywodraethol a mudiadau cymdeithas sifil fod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio strategaethau hybu iaith a mentrau hybu iaith unigol.

- **Argymhelliad 4:** Dylai mudiadau cymdeithas sifil sy'n ymwneud ag adfywio iaith weithio er mwyn sicrhau, naill ai'n unigol neu fel rhan o glymblaid o fudiadau, bod eu gwaith yn taro cydbwysedd rhwng dau faes allweddol: i) gweithgarwch gwleidyddol ac eirioli i sicrhau bod llywodraethau'n cefnogi gwaith hybu iaith, gan gynnwys drwy weithredu mesurau polisi a deddfwriaethol angenrheidiol; a ii) gweithgarwch cymdeithasol ehangach i hybu diddordeb, ymwybyddiaeth, agweddau cadarnhaol a balchder yn yr iaith ranbarthol neu leiafrifol.

Symudedd, tiriogaeth a defnydd iaith bob dydd (t. 7). Mae pobl heddiw'n byw bywydau cynyddol symudol sy'n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol mwyfwy eang. Mae tueddiadau o'r fath yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn ymwneud â'i gilydd bob dydd, ac felly, sut a ble maent yn defnyddio'u hieithoedd. O ganlyniad, gall cymunedau iaith cyfoes fod mewn sawl ffurf – cymunedau daearyddol, cymunedau diddordeb, cymunedau ar-lein, ac ati – ac mae goblygiadau felly o ran sut y dylai ymyraethau sy'n ceisio hybu'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol gael eu llunio a'u gweithredu.

- **Argymhelliad 5:** Gan gydnabod y cynnydd yn lefelau symudedd pobl ac effeithiau hynny ar ddefnydd iaith, mae angen cynyddol i ychwanegu ymagwedd cynllunio iaith rhanbarthol at yr ymagweddau cymunedol a'r ymagweddau cenedlaethol.
- **Argymhelliad 6:** Dylai ymyraethau, naill ai gan sefydliadau llywodraethol neu fudiadau'r gymdeithas sifil, i hybu rhagor o ddefnydd cymdeithasol o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol,

roi ystyriaeth i natur gynyddol rwydweithiol ein bywydau cymdeithasol cyfoes a'r goblygiadau ar gyfer defnydd iaith. Yn benodol, dylai ymyraethau dalu rhagor o sylw i botensial targedu cymunedau diddordeb penodol.

Trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau ac esblygiad y teulu (t. 8). Caiff trosglwyddo iaith rhwng rhieni a'u plant ei weld fel elfen allweddol yn y gwaith o adfywio iaith, ac eto mae dealltwriaeth o'r broses yn dal i fod yn gyfyngedig. Nid yw arwyddocâd yr amrywiaeth gynyddol yng nghyfansoddiad unedau teuluol wedi'u hastudio'n ddigon manwl. Ymhellach, mae newidiadau yn y ffordd mae teuluoedd yn trefnu eu bywydau bob dydd, yn sgil arferion gwaith rhieni a'r defnydd cynyddol o wahanol ddarparwyr gofal ac addysg gynnar, yn golygu y bydd goblygiadau i'r ffordd y mae plant yn profi cymdeithasoli cynnar.

- **Argymhelliad 7:** Dylai prosiectau ymchwil sy'n ceisio deall y broses o drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau sicrhau eu bod yn astudio ystod eang o amgylchiadau teuluol er mwyn cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth gynyddol sydd i'w gweld yng nghyfansoddiad unedau teuluol.
- **Argymhelliad 8:** Mae angen i ymyraethau sydd â'r nod o gryfhau lefelau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau roi rhagor o ystyriaeth i'r ffaith nad dim ond ffactorau mewnol yn y cartref teuluol sy'n dylanwadu ar hynny fel rheol, ond cyfuniad o ffactorau cartref a ffactorau eraill allanol. Dylai ymyraethau hefyd roi gwell cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw gweithredoedd rhieni fel arfer yn seiliedig ar gyfres o benderfyniadau cwbl resymegol a bwriadol.

Mudo rhyngwladol, amlddiwylliannedd ac adfywio iaith (t. 9). Mewn oes o fudo rhyngwladol, mae nifer o ymdrechion adfywio iaith yn digwydd mewn cyd-destunau sy'n gynyddol amlieithog ac aml-ethnig, yn hytrach na'r chyd-destun mwy traddodiadol o ddwyieithrwydd mwyafrifol-lleiafrifol. Mae goblygiadau pwysig i hyn ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol sy'n ymwneud â ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol mewn meysydd polisi allweddol, fel addysg.

- **Argymhelliad 9:** Dylai llywodraethau ystyried ymhellach i ba raddau mae strategaethau adfywio iaith swyddogol yn cael eu hatgyfnerthu neu eu tanseilio gan bolisiau cymathu a dinasyddiaeth.
- **Argymhelliad 10:** Dylai llywodraethau hefyd asesu'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn hwyluso

gallu mewnfudwyr i gaffael yr iaith ranbarthol neu leiafrifol drwy'r system addysg. Er enghraifft, mae goblygiadau posib ar gyfer materion fel ymagweddu pedagogiaid, yr adnoddau dysgu angenrheidiol a hyfforddiant staff.

- **Argymhelliad 11:** Dylai mudiadau cymdeithas sifil sy'n weithgar ym maes adfywio iaith ystyried y ffordd y maent yn ymwneud â chymunedau mewnfudwyr a sut maent yn sicrhau bod mewnfudwyr yn gallu gweld yr ymdrech adfywio fel un y gallan nhw gyfrannu ati hefyd a helpu i'w siapio.

Globaleiddio a'r cysylltiad rhwng iaith ac economi (t. 10). Er bod consensws eang ynghylch pam mor ganolog yw ffactorau economaidd i ragolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, mae diffyg eglurder yn dal i fod ynghylch y gwahanol fathau o faterion sy'n cael eu dwyn ynghyd o dan y pennawd iaith-economi. Ymhellach, ni roddwyd llawer o ystyriaeth i'r cwestiwn penodol ynghylch sut mae newidiadau strwythurol yn yr economi ac mewn patrymau gwaith yn effeithio, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar hyfywedd cymunedau iaith penodol.

- **Argymhelliad 12:** Dylai llywodraethau, mudiadau cymdeithas sifil ac ymchwilwyr academiaidd anelu i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'r gwahanol ffyrdd y gall materion economaidd fod yn berthnasol i ragolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Yn benodol, dylai trafodaethau polisi wahaniaethu'n fwy eglur rhwng: i) i ba raddau y gall ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ddylanwadu ar berfformiad economaidd (hynny yw, y cysylltiad iaith > economi); a ii) sut ac ym mha ffyrdd mae prosesau economaidd yn dylanwadu ar lefelau hyfywedd iaith (hynny yw, y cysylltiad economi > iaith).
- **Argymhelliad 13:** Dylai llywodraethau flaenoriaethu'r dasg o ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r modd mae datblygiadau economaidd mewn ardal ddaearyddol benodol, neu fentrau sy'n rhan o strategaethau rhanbarthol neu strategaethau datblygu economaidd eraill, yn effeithio ar iaith ranbarthol neu leiafrifol, naill ai o ran nifer y siaradwyr, eu dwysedd daearyddol neu eu tuedd i ddefnyddio'r iaith.
- **Argymhelliad 14:** Dylai llywodraethau anelu i gryfhau'r aliniad rhwng strategaethau swyddogol sydd â'r nod o hybu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol a rhaglenni llywodraethol eraill sydd â'r nod o hybu datblygiad economaidd.

1. Cyflwyniad

Ers ei sefydlu yn 2017, amcan rhwydwaith ymchwil Adfywio oedd astudio goblygiadau rhai o'r newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol mawr sydd i'w weld mewn cymdeithasau Gorllewinol heddiw o ran ein dealltwriaeth o'r ffordd y dylid dylunio a gweithredu ymdrechion adfywio iaith cyfoes. Ariannwyd y rhwydwaith gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y Deyrnas Gyfunol (yr AHRC) a'i arwain gan Dr Huw Lewis (Prifysgol Aberystwyth), yr Athro Wilson McLeod (Prifysgol Caeredin) a Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth).

Canolbwynt gweithgarwch y rhwydwaith oedd cyfres o bedwar gweithdy a gynhaliwyd yn Aberystwyth, Caeredin a Chaerdydd rhwng mis Mai 2017 a mis Chwefror 2019. Roedd y gweithdai hyn yn dwyn ynghyd grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr academiaidd ym meysydd y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ynghyd â nifer o ymarferwyr polisi iaith blaenllaw ac aelodau o fudiadau cymdeithas sifil sy'n gweithio ym maes adfywio iaith. Ymhellach, cynhaliwyd cynhadledd derfynol ym Mrwsel ddechrau mis Ebrill 2019. Trefnwyd y digwyddiad hwn ar y cyd â'r Rhwydwaith Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (yr NPLD), ac roedd y cynadleddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd, Cyngor Ewrop yn ogystal â sawl llywodraeth ranbarthol sy'n weithgar ym maes hybu ieithoedd lleiafrifol.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau ac argymhellion sy'n codi o'r prosiect, gyda phob adran yn amlygu'r ffaith bod gan newidiadau cymdeithasol, economaidd neu wleidyddol cyfoes oblygiadau pwysig ar gyfer trafodaethau sy'n ymwneud â sut i fynd i'r afael â'r her o hybu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

I gael rhagor o wybodaeth am waith rhwydwaith Adfywio, gan gynnwys adroddiadau briffio sy'n crynhoi'r trafodaethau yn ystod gweithdai'r prosiect, yn ogystal â chlipiau sain a fideo byrion o'r amryfal gyfranwyr yn trafod eu syniadau, ewch i wefan y prosiect: <https://revitalise.aber.ac.uk/cy>

2. Adfywio iaith fel gweithgarwch aml-lefel

Sefydliadau chyrrff rhanbarthol sydd wedi goruchwyllo'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch diweddar i gefnogi ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Ac eto, gall penderfyniadau ar y lefel gwladwriaethol neu gyfandirol gael dylanwad ar waith datblygu polisi yn y maes hwn hefyd, sy'n golygu y dylid gweld adfywio iaith fel gweithgarwch aml-lefel.

Cyd-destun: Yn ystod y degawdau diwethaf, mae Ewrop wedi bod yn dyst i broses o 'ailraddio' lle mae gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol wedi symud i lefelau tiriogaethol sydd uwchben ac islaw'r wladwriaeth. Mae hyn wedi arwain at batrymau newydd o lywodraethu aml-lefel lle mae'r dylanwad dros wneud penderfyniadau mewn amryfal feysydd polisi wedi'i wasgaru ymhlith sawl sefydliad sy'n gweithredu ar draws mwy nag un lefel diriogaethol – rhyngwladol, gwladwriaethol, rhanbarthol a lleol.

Ar y cyfan, wrth ystyried ymyraethau polisi i gefnogi ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, y duedd fu canolbwyntio ar lefelau tiriogaethol fesul un, boed hynny ar lefel leol, ranbarthol, gwladwriaethol neu ryngwladol. O'r herwydd, nid yw'r graddau y gall penderfyniadau polisi mewn lleoliad penodol fod wedi'i ddylanwadu gan ryngweithio rhwng sefydliadau neu gyrff ar draws sawl lefel diriogaethol wedi'i wyntyllu i'r un graddau.

O ganlyniad, mae angen talu mwy o sylw i'r symudiad tuag at batrymau llywodraethu aml-lefel wrth geisio deall sut mae gwahanol bolisiau'n ymwneud â ieithoedd lleiafrifol neu ranbarthol yn cael eu llunio. Er mai llywodraethau ar lefel ranbarthol sydd wedi bod yn gyfrifol am oruchwyllo'r rhan fwyaf o weithgarwch polisi i gefnogi ieithoedd o'r fath yn ystod y degawdau diwethaf, anaml y mae mentrau ar lefel ranbarthol wedi'u llunio a'u datblygu mewn gwagle. Gan adlewyrchu patrymau llywodraethu aml-lefel, mae'n debygol bod ymyraethau polisi sydd â'r nod o hybu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol wedi dod o dan ddylanwad penderfyniadau sydd wedi'u gwneud ar sawl lefel. Er enghraifft, hyd yn oed pan fo gan y lefel ranbarthol gymhwysedd ffurfiol dros bolisi'n ymwneud â ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, mae'n debygol y bydd strwythurau ar y lefel gwladwriaethol (er enghraifft, trefniadau cyfansoddiadol neu ariannol) yn dal i fod â dylanwad sylweddol dros fentrau adfywio iaith. Gall strwythurau ar y lefel gyfandirol neu'r lefel byd-eang fod yn arwyddocaol hefyd, gyda'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu y gallai eu dylanwad fod yn fwy pan fo gwladwriaeth yn arddel safbwynt mwy caeth tuag at ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.

Argymhellion:

- **Argymhelliad 1:** Mae angen rhagor o gydnabyddiaeth o'r symudiad tuag at batrymau llywodraethu aml-lefel wrth geisio deall y ddynmeg wleidyddol sy'n dylanwadu ar ddatblygu ymyraethau polisi sy'n ymwneud â ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.
- **Argymhelliad 2:** Gall datblygu dealltwriaeth gadarnach o'r ffactorau aml-lefel sy'n dylanwadu ar ddatblygiad polisi o ran ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol arwain at well dealltwriaeth o'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd gwleidyddol sy'n wynebu'r rheini sy'n gweithio yn y maes, naill ai fel swyddogion polisi neu fel ymgyrchwyr cymdeithas sifil. Gall hefyd helpu i hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd o ran dysgu polisi a throsglwyddo polisi.

3. Cydbwysu swyddogaeth sefydliadau llywodraethol a mudiadau cymdeithas sifil

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae llywodraethau – llywodraethau rhanbarthol fel arfer – wedi dod yn gynyddol ddylanwadol mewn sawl ymdrech i adfywio ieithoedd Ewropeaidd, ond a yw'r duedd hon yn effeithio ar waith hanfodol mudiadau cymdeithas sifil?

Cyd-destun: Yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf, bu shift pwysig yn y swyddogaeth y mae llywodraethau democrataidd yn ei chwarae yn y broses o gydlynu'r gymdeithas. Mae llawer o ymchwilyr academiaidd yn dadlau na ellir ystyried llywodraethau yn benderfynwyr hollbwerus bellach, a hynny mewn ystod o wahanol feysydd cymdeithasol ac economaidd. Yn hytrach, honnir fod cyrff anllywodraethol, gan gynnwys amryfal gyrff penodedig lled braich, corfforaethau preifat a mudiadau cymdeithas sifil, yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi cyhoeddus.

At eto, pan drow'n i edrych ar y modd mae ymdrechion i adfywio ieithoedd lleiafrifol wedi'u trefnu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwn duedd ychydig yn wahanol. Ers diwedd y saithdegau, un o nodweddion yr ymdrechion i adfywio ieithoedd ledled Gorllewin Ewrop, mewn lleoedd megis Catalwnia, Gwlad y Basg, Cymru neu'r Alban, yw'r ffaith bod gweithredu ar ran llywodraeth – llywodraethau rhanbarthol fel arfer – wedi dod yn gynyddol bwysig a dylanwadol. Golygfa hyn, mewn sawl lle yn Ewrop, fod adfywio iaith wedi symud o fod yn weithgarwch llawr gwlad oedd yn seiliedig yn bennaf ar waith amryfal fudiadau cymdeithas sifil.

Thema bwysig yn ystod y prosiect oedd bod angen cydnabod y gall tyndra godi rhwng llywodraethau a mudiadau cymdeithas sifil pan fo llywodraethau'n ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros weithgaredd adfywio iaith. Holwyd a yw rhoi gormod o bwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethol yn gallu arwain at sefyllfa lle caiff cyfraniad posib mudiadau anllywodraethol llawr gwlad ei ddiystyru, gan y swyddogion a chan ymgyrchwyr fel ei gilydd. Ymhellach, dadleuwyd mai un o oblygiadau ymwneud mwy uniongyrchol gan gyrff llywodraethol (er enghraifft, drwy ddyrannu arian cyhoeddus) yw'r perygl o danseilio annibyniaeth mudiadau llawr gwlad a chyfyngu ar eu gallu i arloesi ac arbrofi gyda gwahanol fentrau hybu iaith, gan y gallai eu gwaith wynebu rhagor o oruchwyliaeth, rheolaeth a rheoleiddio. Yn y bôn, er na chwestiynid pwysigrwydd cefnogaeth swyddogol y llywodraeth ar gyfer ieithoedd lleiafrifol, boed hynny drwy greu strwythurau polisi addas neu drwy ddarparu cyllid, daeth yn amlwg bod angen i'r rhai sy'n ymwneud â gweithgarwch adfywio iaith roi mwy o sylw i oblygiadau rhagor o ymwneud gan gyrff llywodraethol.

Argymhellion:

- **Argymhelliad 3:** Dylai sefydliadau llywodraethol gydnabod y ffaith bod ymdrechion adfywio iaith effeithiol yn dibynnu ar fwy na gweithredu llywodraethol swyddogol. Mae ymwneud poblogaidd eang a chyfraniad mudiadau cymdeithas sifil hefyd yn elfennau hanfodol. O ganlyniad, dylai'r cydbwysedd rhwng swyddogaeth amryfal sefydliadau llywodraethol a mudiadau cymdeithas sifil fod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio strategaethau hybu iaith a mentrau hybu iaith unigol.
- **Argymhelliad 4:** Dylai mudiadau cymdeithas sifil sy'n ymwneud ag adfywio iaith weithio er mwyn sicrhau, naill ai'n unigol neu fel rhan o glymblaid o fudiadau, bod eu gwaith yn taro cydbwysedd rhwng dau faes allweddol: i) gweithgarwch gwleidyddol ac eirioli i sicrhau bod llywodraethau'n cefnogi gwaith hybu iaith, gan gynnwys drwy weithredu mesurau polisi a deddfwriaethol angenrheidiol; a ii) gweithgarwch cymdeithasol ehangach i hybu diddordeb, ymwybyddiaeth, agweddau cadarnhaol a balchder yn yr iaith ranbarthol neu leiafrifol.

4. Symudedd, tiriogaeth a defnydd bob dydd o iaith

Mae pobl heddiw'n byw bywydau cynyddol symudol sy'n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol mwyfwy eang, tueddiadau o'r fath yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn ymwneud â'i gilydd bob dydd, ac felly, dylent ddylanwadu ar y modd y bydd ymyraethau sydd â'r nod o hybu defnydd o ieithoedd lleiafrifol yn cael eu llunio a'u gweithredu.

Cyd-destun: Yn ystod y degawdau diwethaf, bu newidiadau pwysig yn nhrefniadaeth ofodol cymdeithasau. Yn gyntaf, mewn sawl gwlad Ewropeaidd, mae'r duedd gyffredinol o wrth-drefoli a welwyd yn y saithdegau a dechrau'r wythdegau wedi dychwelyd i un o drefoli. Yn ail, mae trefoli wedi bod yn arbennig o amlwg ymhlith grwpiau oedran iau, gan arwain at begynu cynyddol o ran proffiliau poblogaeth ardaloedd trefol a chefn gwlad. Ymhellach, mae'r newidiadau gofodol hyn, o'u cyfuno â datblygiadau ym maes technoleg, wedi arwain at newidiadau sylfaenol yn y ffordd mae pobl yn rhwyngweithio â'i gilydd. Mae cynnydd mewn symudedd personol, sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod gwell seilwaith a bod rhagor o bobl yn berchen ar gar, wedi arwain at fywydau sy'n rhychwantu ardaloedd daearyddol mwy a mwy. Yn ei dro, mae gan hyn oblygiadau i'r modd mae pobl yn ymwneud ag amrywiaeth o wasanaethau craidd (er enghraifft, addysg ac iechyd), yn enwedig o gofio y rhesymoli ar wasanaethau o gwmpas canolfannau trefol. Mae symudedd a thechnoleg wedi cyfrannu hefyd at newidiadau i natur y gymdeithas sifil. Ar y cyfan, bu symud i ffwrdd oddi wrth ffurfiau anffurfiol, lleoledig ar ymwneud cymdeithasol, tuag at ffurfiau teneuach, mwy ffurfiol, a mwy unigolyddol ar ymwneud, sy'n seiliedig ar gymunedau o ddiddordeb cyffredin. Ar yr un pryd, mae lledaeniad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi ysgogi datblygiad ffurfiau newydd ar ymwneud cymdeithasol y mae lleoliad daearyddol yn llai o ffactor ynddynt.

Yn draddodiadol, mae trafodaethau ynghylch sut i ysgogi rhagor o ddefnydd o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol wedi pwysleisio'r angen i dargedu cymunedau tiriogaethol penodol gyda'r nod o hybu rhwydweithiau lleol, cymdogaethol. Er na ddylid diystyru ymagwedd gymunedol o'r fath yn llwyr, golyga ffyrdd o fyw trefol a symudol cyfoes fod angen ailasesu i ba raddau mae'r gymdogaeth leol yn dal i fod yn brif ddylanwad ar arferion defnydd iaith bob dydd pobl. Mae bywydau cymdeithasol yn cael eu hymestyn ar draws ardaloedd ehangach erbyn hyn, sy'n dylanwadu ar ble, pryd a sut mae pobl yn ymwneud â'i gilydd, ac felly, ble maent yn defnyddio'u hieithoedd. Mae hyn yn effeithio ar blant ac oedolion fel ei gilydd, ac yn dylanwadu ar faterion fel ymwneud gan blant mewn gweithgareddau allgyrsiol, cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus. O'r herwydd, mae angen adolygu tybiaethau traddodiadol ynghylch sut i ymyrryd er mwyn hybu defnydd o ieithoedd lleiafrifol.

Argymhellion:

- **Argymhelliad 5:** Gan gydnabod y cynnydd yn lefelau symudedd pobl ac effeithiau hynny ar ddefnydd iaith, mae angen cynyddol i ychwanegu ymagwedd cynllunio iaith rhanbarthol at yr ymagweddau cymunedol a'r ymagweddau cenedlaethol.
- **Argymhelliad 6:** Dylai ymyraethau, naill ai gan sefydliadau llywodraethol neu fudiadau'r gymdeithas sifil, i hybu rhagor o ddefnydd cymdeithasol o ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, roi ystyriaeth i natur cynyddol rhwydweithiol ein bywydau cymdeithasol cyfoes a'r goblygiadau ar gyfer defnydd iaith. Yn benodol, dylai ymyraethau dalu rhagor o sylw i botensial targedu cymunedau diddordeb penodol.

5. Trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau ac esblygiad yr uned deuluol

Caiff trosglwyddo iaith rhwng rhieni a'u plant ei weld fel elfen allweddol yn y gwaith o adfywio iaith, ac eto mae dealltwriaeth o'r broses yn dal i fod yn gyfyngedig, ac mae angen ystyriaeth fwy manwl o arwyddocâd amrywiaeth gynyddol yng nghyfansoddiad unedau teuluol.

Cyd-destun: Mae'r teulu, ac yn benodol y broses o drosglwyddo iaith rhwng rhieni a'u plant, wedi cael ei bwysleisio'n gyson fel mater allweddol ar gyfer adfywio iaith. Fodd bynnag, yn ystod y prosiect dadleuwyd nad yw trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau wedi'i gysyniadoli mewn modd boddhaol hyd yma, ac mai canlyniad hynny yw mai ychydig a wyddom o hyd am y modd mae'r broses yn gweithio, a pha fath o gamau y gellir eu cymryd i ddylanwadu ar hynny.

Gyda golwg ar ddatblygu dealltwriaeth gadarnach o drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau, tynnodd y prosiect sylw at gyfres o egwyddorion allweddol:

- **yn gyntaf, bod angen cydnabod natur gynhenid 'flêr' trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a phwysigrwydd peidio â gweld y broses mewn termau deul syml – hynny yw, fel petai'n ddewis rhwng 'digwydd' a 'ddim yn digwydd' mewn gwahanol sefyllfaoedd teuluol;**
- **yn ail, bod angen cydnabod bod trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn aml yn deillio o ymddygiad nad yw'n ymwybodol ac nad yw wedi'i gynllunio, yn enwedig mewn cyd-destunau uniaith, a'i bod yn hanfodol peidio â chymryd ei bod yn broses sy'n tarddu o gyfres o benderfyniadau rhesymegol a bwriadol gan rieni;**
- **ac yn drydydd, pwysigrwydd gweld trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau fel proses nad yw'n dod o dan ddylanwad ffactorau mewnol yn y cartref teuluol yn unig, ond yn hytrach bod rhyngweithio cymhleth rhwng ffactorau cartref a ffactorau allanol eraill.**

Ffactor arwyddocaol pellach a nodwyd, ac un sy'n cysylltu'n uniongyrchol â thema gyffredinol newid cymdeithasol cyfoes, oedd bod angen i drafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau roi rhagor o ystyriaeth i arwyddocâd yr amrywiaeth gynyddol yng nghyfansoddiad unedau teuluol. Hyd yma, mae ymchwil sy'n astudio defnydd iaith mewn teuluoedd wedi tueddu i ganolbwyntio ar ystod cul o amgylchiadau teuluol, gan edrych yn bennaf ar arferion ieithyddol mewn teuluoedd dau riant heterorywiol. Nid yw wedi ymateb i'r amrywiaeth gynyddol yng nghyfansoddiad unedau teuluol drwy astudio amgylchiadau penodol teuluoedd un riant neu deuluoedd â rhieni hoyw, neu oblygiadau tor-perthynas a threfniadau cartref mwy cymhleth. O'r herwydd, cyfyngedig yw'r wybodaeth ynghylch i ba raddau y gall amgylchiadau teuluol gwahanol ddylanwadu ar y modd mae plant yn caffael iaith, nac o ran a ddylai'r patrymau esblygol yma ddylanwadu ar y modd y caiff strategaeth i wella lefelau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau eu dylunio a'u gweithredu.

Argymhellion:

- **Argymhelliad 7: Dylai prosiectau ymchwil sy'n ceisio deall y broses o drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau sicrhau eu bod yn astudio ystod eang o amgylchiadau teuluol er mwyn cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth gynyddol sydd i'w gweld yng nghyfansoddiad unedau teuluol.**
- **Argymhelliad 8: Mae angen i ymyraethau sydd â'r nod o gryfhau lefelau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau roi rhagor o ystyriaeth i'r ffaith nad dim ond ffactorau mewnol yn y cartref teuluol sy'n dylanwadu ar hynny fel rheol, ond cyfuniad o ffactorau cartref a ffactorau eraill allanol. Dylai ymyraethau hefyd roi gwell cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw gweithredoedd rhieni fel arfer yn seiliedig ar gyfres o benderfyniadau cwbl resymegol a bwriadol.**

6. Mudo rhyngwladol, amlddiwylliannedd ac adfywio iaith

Mewn oes o fudo rhyngwladol, mae nifer o ymdrechion adfywio iaith yn digwydd mewn cyd-destunau sy'n gynyddol amlieithog ac aml-ethnig, yn hytrach na'r cyd-destun mwy traddodiadol o ddwyieithrwydd mwyafrifol-lleiafrifol.

Cyd-destun: Mae tueddiadau demograffig diweddar wedi arwain at newidiadau pwysig yng nghyfansoddiad poblogaethau llawer o gymdeithasau Ewropeaidd. Yn yr 'oes o fudo' hon, mae cymdeithasau wedi dod yn fwy aml-ethnig ac amlddiwylliannol.

Mae mudo rhyngwladol a'r symudiad tuag at gymdeithasau cynyddol amrywiol yn dueddiadau sydd â goblygiadau amlwg ar gyfer ymdrechion i hybu rhagolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Mewn sawl achos ledled Ewrop, mae ymdrechion adfywio iaith yn digwydd mewn cyd-destunau cynyddol amlieithog ac aml-ethnig, yn hytrach na chyd-destun mwy traddodiadol o ddwyieithrwydd mwyafrifol-lleiafrifol. Yn ystod y prosiect, tynnwyd sylw at Gatalwnia ar sawl achlysur fel achos lle mae newid demograffig o'r fath wedi arwain at ymdrechion arloesol i gynnal a normaleiddio sefyllfa'r Gatalaneg, gyda rhanbarth Barcelona yn arbennig o berthnasol. Ac eto, yn arwyddocaol, mae goblygiadau mudo rhyngwladol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r achosion mwyaf adnabyddus. Yn benodol, mae'r ffenomen gyfoes hon yn berthnasol nid yn unig i ymdrechion adfywio iaith mewn lleoliadau trefol mawr, ond hefyd i ardaloedd mwy gwledig fel Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban a gogledd-orllewin Cymru.

Mae goblygiadau mudo rhyngwladol yn creu sawl cyfle a sawl her i bleidwyr ieithoedd lleiafrifol. Ar y lefel fwyaf cyffredinol, rhaid ystyried yr angen i ganiatáu i hunaniaethau ieithyddol lluosog gael eu cynnal, gan sicrhau ar yr un pryd bod gofodau digonol i normaleiddio'r iaith leiafrifol fel prif gyfrwng ymwneud pobl. Yn fwy penodol, mae angen ystyried i ba raddau mae polisiâu dinasyddiaeth a chymathu yn atgyfnerthu neu'n tanseilio amcanion adfywio iaith sefydledig; y ffordd y caiff addysg iaith leiafrifol ei chynllunio, ei darparu a'i hybu ymhlith poblogaethau amrywiol o ran iaith a diwylliant; a'r ffaith y gallai heriau economaidd-gymdeithasol penodol sy'n wynebu cymunedau o fewnfudwyr (er enghraifft, diffyg amser oherwydd bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o fewnfudwyr yn gweithio mewn sectorau llafur ddwys) effeithio ar eu gallu i ymwneud â rhaglenni sydd â'r nod o hybu cyfleoedd i bobl gaffael iaith leiafrifol a'i defnyddio.

Argymhellion:

- **Argymhelliad 9:** Dylai llywodraethau ystyried ymhellach i ba raddau mae strategaethau adfywio iaith swyddogol yn cael eu hatgyfnerthu neu eu tanseilio gan bolisiau cymathu a dinasyddiaeth.
- **Argymhelliad 10:** Dylai llywodraethau hefyd asesu'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn hwyluso gallu mewnfudwyr i gaffael yr iaith ranbarthol neu leiafrifol drwy'r system addysg. Er enghraifft, mae goblygiadau posib ar gyfer materion fel ymagweddau pedagogaidd, yr adnoddau dysgu angenrheidiol a hyfforddiant staff.
- **Argymhelliad 11:** Dylai mudiadau cymdeithas sifil sy'n weithgar ym maes adfywio iaith ystyried y ffordd y maent yn ymwneud â chymunedau mewnfudwyr a sut maent yn sicrhau bod mewnfudwyr yn gallu gweld yr ymdrech adfywio fel un y gallan nhw gyfrannu ati hefyd a helpu i'w siapio.

7. Globaleiddio a'r cysylltiadau rhwng iaith a modelau datblygu economaidd cyfoes

Er bod consensws eang ynghylch pa mor ganolog yw ffactorau economaidd i ragolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, mae diffyg dealltwriaeth ynghylch sut mae newidiadau strwythurol yn yr economi ac mewn patrymau gwaith yn effeithio, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar hyfywedd ieithoedd lleiafrifol penodol.

Cyd-destun: Yn wahanol i'r twf yn nylanwad llywodraethau, yn enwedig llywodraethau rhanbarthol, dros fentrau sydd â'r nod o hybu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol (a drafodir yn adran 2 y papur hwn), bu dirywiad sylweddol yng ngallu llywodraethau i ymyrryd yn yr economi. Mae globaleiddio economaidd wedi cael effaith sylweddol ar gymdeithasau Gorllewinol. Mae hynny wedi creu symudiad oddi wrth economïau cenedlaethol unigol tuag at economi fyd-eang sy'n gynyddol gydgyssylltiedig a chyd-ddibynnol, ac mae hyn wedi ysgogi newidiadau sylweddol ym mhatriau gwaith pobl ac wedi cryfhau safle cyrff trawswladol, yn enwedig corfforaethau amlwladol.

Wrth i'r newidiadau economaidd hyn ddigwydd, mae pleidwyr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol wedi pwysleisio arwyddocâd y cysylltiad rhwng iaith ac economi yn gyson. Ac eto, mae diffyg eglurder yn dal i fod ynghylch y gwahanol fathau o faterion economaidd a all effeithio ar ragolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ac mae hyn yn atal gweithgarwch polisi yn y maes hwn.

Ar un llaw, bu sawl ymdrech gan ymchwilydd academaidd ac ymarferwyr polisi yn ystod y blynyddoedd diwethaf i astudio i ba raddau y gall ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ddylanwadu ar berfformiad economaidd (hynny yw, y cysylltiad iaith > economi). Yn y cyd-destun hwn, mae'r pwyslais yn tueddu i fod ar faterion fel a yw'r gallu i siarad iaith benodol yn dylanwadu ar ragolygon gwaith pobl a'u henillion posib, neu a yw defnyddio iaith benodol gan gwmnïau unigol neu mewn sectorau penodol yn dylanwadu ar eu perfformiad economaidd, er enghraifft o ran proffil marchnad neu drosiant blynyddol.

Ac eto, daeth yn amlwg yn ystod y prosiect bod diffyg ystyriaeth wedi bod, hyd yma, i'r modd mae prosesau economaidd yn dylanwadu'n benodol ar hyfywedd iaith (hynny yw, y cysylltiad economi > iaith). Er enghraifft, sut mae datblygiadau economaidd mewn ardal benodol, neu fentrau cyffredinol sy'n gysylltiedig â strategaethau datblygu economaidd rhanbarthol, yn effeithio ar iaith ranbarthol neu leiafrifol, naill ai o ran nifer y siaradwyr, eu dwysedd daearyddol neu eu tuedd i ddefnyddio'r iaith. Yn ogystal, mae'n aneglur a yw cynlluniau a strategaethau llywodraethol i hybu datblygiad economaidd yn cydgysylltu â strategaethau swyddogol sy'n ceisio hybu

ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, nac yn wir a yw strategaethau datblygu economaidd yn rhoi unrhyw ystyriaeth i'w heffaith bosib (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ar ymdrechion adfywio iaith. Ymhellach, gan ei bod yn ymddangos bod strategaethau datblygu economaidd yn llai a llai sensitif i sefyllfa ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ychydig o ystyriaeth a roddir i oblygiadau ffactorau megis natur ffiniol, wledig ac economaidd wan ardaloedd sy'n aml yn cael eu cysylltu â ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Rhywbeth arall sy'n cael ei anghofio yw'r posibilrwydd bod rhai ymdrechion i hybu adfywiad ieithoedd lleiafrifol, yn enwedig mewn sectorau megis y cyfryngau a'r llywodraeth, yn tueddu i greu swyddi mewn ardaloedd trefol mewn ffordd sydd, gellir dadlau, yn tanseilio sylfaen economaidd cymunedau mwy gwledig.

Argymhellion:

- **Argymhelliad 12:** Dylai llywodraethau, cyfranogwyr o'r gymdeithas sifil ac ymchwilydd academaidd anelu i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'r gwahanol ffyrdd y gall materion economaidd fod yn berthnasol i ragolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Yn benodol, dylai trafodaethau polisi wahaniaethu'n fwy eglur rhwng: i) i ba raddau y gall ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol ddylanwadu ar berfformiad economaidd (hynny yw, y cysylltiad iaith > economi); a ii) sut ac ym mha ffyrdd mae prosesau economaidd yn dylanwadu ar lefelau hyfywedd iaith (hynny yw, y cysylltiad economi > iaith).
- **Argymhelliad 13:** Dylai llywodraethau flaenoriaethu'r dasg o ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r modd mae datblygiadau economaidd mewn ardal ddaearyddol benodol, neu fentrau sy'n rhan o strategaethau rhanbarthol neu strategaethau datblygu economaidd eraill, yn effeithio ar iaith ranbarthol neu leiafrifol, naill ai o ran nifer y siaradwyr, eu dwysedd daearyddol neu eu tuedd i ddefnyddio'r iaith.
- **Argymhelliad 14:** Dylai llywodraethau anelu i gryfhau'r aliniad rhwng strategaethau swyddogol sydd â'r nod o hybu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol a rhaglenni llywodraethol eraill sydd â'r nod o hybu datblygiad economaidd.